**Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion**

# PT33(Cymraeg) Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth: Cytundeb rhwng APHA a Chludwyr Awyr Cymunedol a Chludwyr Awyr y DU ar gyfer cludo Cŵn Cymorth Cydnabyddedig

## Hydreff 2024

## Cynnwys


Adran 1: Gwybodaeth gyffredinol ..... 1

Rhan 1: Rhoi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith ..... 1

Rhan 2: Rhwymedigaethau cyfreithiol cludwyr awyr cymunedol ..... 1

Rhan 3: Statws y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ..... 2

Adran 2: Gweithdrefn y cytunwyd arni ..... 4

Gweithdrefnau Cofnodi ..... 4

Cyfeirio Cŵn Cymorth Cydnabyddedig a ddatganwyd ..... 6

Cyfeirio teithwyr â Chŵn Cymorth Cydnabyddedig nas datganwyd ..... 7

Lles wrth Gludo ..... 7

Nodiadau mewn perthynas â chludo Cŵn Cymorth Cydnabyddedig ..... 8

# Adran 1: Gwybodaeth gyffredinol

## Rhan 1: Rhoi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn gymwys i hediadau sy'n cludo Cŵn Cymorth Cydnabyddedig i Brydain Fawr a weithredir gan y canlynol:

- Cludwyr awyr cymunedol*
- Cludwyr awyr y DU**

y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel “cludwyr awyr”.

*cludydd awyr â thrwydded weithredu ddilys a roddwyd gan Aelod Wladwriaeth yn unol â Rheoliad (CE) Rhif 1008/2008 o Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 24 Medi 2008 ar reolau cyffredin ar gyfer gweithredu gwasanaethau awyr yn y Gymuned fel y mae'n weithredol yng Nghyfraith yr UE (mae hyn yn cynnwys gwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) a'r Swistir).

** cludydd awyr â thrwydded weithredu ddilys a roddwyd gan yr Awdurdod Hedfan Sifil yn unol â Phennod II o Reoliad (CE) Rhif 1008/2008 o Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 24 Medi 2008 ar reolau cyffredin ar gyfer gweithredu gwasanaethau awyr yn y Deyrnas Unedig.

Mae Ci Cymorth Cydnabyddedig yn cyfeirio at gi y cred y cludydd awyr yn rhesymol mai ci cymorth ydyw sy'n teithio gyda theithiwr anabl neu deithiwr ag anawsterau symud at ddiben darparu cymorth priodol i'r person hwnnw, yn unol â chanllawiau perthnasol gan y Llywodraeth (Yr Adran Drafnidiaeth) a/neu'r Rheoleiddiwr (Yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA)). Nid yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn ymdrin ag unrhyw gŵn eraill ac mae angen cymeradwyaeth ar wahân ar gludwyr sy'n dymuno eu cludo fel anifeiliaid anwes rheolaidd.

## Rhan 2: Rhwymedigaethau cyfreithiol cludwyr awyr cymunedol

1. **Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar gludwyr awyr i dderbyn pobl anabl a phobl ag anawsterau symud ar eu hawyrennau ac ni ddylent wrthod cludiant ar sail anabledd neu ddiffyg symudedd ac eithrio am resymau y gellir eu cyfiawnhau ar sail diogelwch ac a ragnodir gan y gyfraith. Mae'r rhwymedigaeth hon hefyd yn gymwys i gludo Cŵn Cymorth Cydnabyddedig.**

2. **Mae'r rhwymedigaethau cyfreithiol wedi'u nodi'n llawn yn Rheoliad (UE) Rhif. 1107/2006 a gymathwyd sy'n ymwneud â hawliau pobl anabl a phobl ag anawsterau symud pan fyddant yn teithio mewn awyren (“Rheoliad 1107/2006”). Mae'r prif rwymedigaethau mewn perthynas â chludo Cŵn Cymorth Cydnabyddedig fel a ganlyn:**

**Erthygl 7.2 o Reoliad 1107/2006**
Pan fydd angen defnyddio Ci Cymorth Cydnabyddedig, darperir ar gyfer hyn ar yr amod yr hysbysir y cludydd awyr neu ei asiant neu'r gweithredwr teithiau o hynny yn unol â rheolau cenedlaethol cymwys sy'n ymdrin â chludo cŵn cymorth ar awyrennau, pan fo'r cyfryw reolau yn bodoli.

**Erthygl 10 o Reoliad 1107/2006**
Cymorth gan gludwyr awyr – Bydd cludydd awyr yn rhoi'r cymorth a nodir yn Atodiad II i'r Rheoliadau heb godi tâl ychwanegol ar berson anabl neu berson sydd â llai o symudedd sy'n gadael neu'n cyrraedd maes awyr y mae'r Rheoliad hwn yn gymwys iddo neu'n teithio drwyddo ar yr amod bod y person dan sylw yn bodloni'r amodau a nodir yn Erthygl 7(1), (2) a (4).

**Atodiad II – Cymorth gan gludwyr awyr**
Cludo Cŵn Cymorth Cydnabyddedig yn y caban, yn ddarostyngedig i reoliadau cenedlaethol.

## Rhan 3: Statws y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

1. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi'r weithdrefn gyffredin y cytunwyd arni rhwng yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) a chludwyr awyr o ran sut y byddant yn hwyluso'r broses o gludo Cŵn Cymorth Cydnabyddedig drwy'r awyr i mewn i Brydain Fawr a gweithio gyda chyrff rheoli meysydd awyr er mwyn sicrhau y caiff Cŵn Cymorth Cydnabyddedig eu cyflwyno i'r bobl briodol mewn meysydd awyr ar gyfer archwiliadau.
2. Drwy lofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, mae'r cludydd awyr yn cytuno i wneud pob ymdrech resymol i gydymffurfio â'r gweithdrefnau ysgrifenedig a nodir isod.
3. Bydd APHA a chludwyr awyr yn adolygu'r modd y gweithredir y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth bob dwy flynedd o leiaf.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r cludydd awyr: | | Dyddiad adolygu (i'w gwblhau gan APHA): | |
| Dyddiad cwblhau/diwygio: | | | |

# Adran 2: Gweithdrefn y cytunwyd arni

| Gweithrediad | Disgrifiad o'r broses |
|---|---|
| **Gweithdrefnau Cofnodi** | |
| 1.<br>(i) Mae'n ofynnol i gludwyr awyr, drwy eu systemau gwerthu tocynnau ac archebu, nodi teithwyr â Chŵn Cymorth Cydnabyddedig.<br>(ii) Pan fydd y ci yn cyrraedd y maes awyr byrddio, dylid cynnal archwiliadau i sicrhau bod y cludydd awyr yn fodlon mai Ci Cymorth Cydnabyddedig ydyw, gan ddilyn unrhyw ganllawiau perthnasol gan y Llywodraeth (Yr Adran Drafnidiaeth) a/neu'r Rheoleiddiwr (CAA).<br>(iii) Dylid cynnal archwiliadau i sicrhau bod gan yr unigolyn sy'n teithio gyda'r Ci Cymorth Cydnabyddedig basbort anifail anwes neu dystysgrif iechyd ddilys ac wedi'i chwblhau. | Bydd y cludydd awyr yn trosglwyddo gwybodaeth yn unol â Rheoliad 1107/2006, a chanllawiau perthnasol y Llywodraeth neu'r rheoleiddiwr. Bydd hyn yn cynnwys nodi unigolion sy'n teithio gyda Chi Cymorth Cydnabyddedig, drwy ddefnyddio codau dynodedig e.e. PETC – Unigolyn sy'n teithio gyda chi cymorth.<br>Ar gyfer teithwyr sydd wedi hysbysu Cludwyr awyr cymunedol 48 awr cyn gadael, caiff y data hyn eu trosglwyddo (e.e. gan ddefnyddio system PAL/CAL) o fewn 36 awr i amser gadael yr awyren.<br>Yn achos tocynnau a archebir o fewn 36 awr i amser gadael awyren, ar yr adeg y caiff y trefniadau eu gwneud, caiff hysbysiad ei anfon drwy neges SITA neu i'r cyfeiriad e-bost dynodedig yn y maes awyr sy'n derbyn y ci cymorth cydnabyddedig. Os bydd y trefniadau teithio yn newid, anfonir rhestr CAL. Dylai'r cwmni awyrennau ofyn i'r perchennog brofi bod y ci yn Gi Cymorth Cydnabyddedig. Byddai cerdyn adnabod a ddarparwyd gan y sefydliad a hyfforddodd y ci yn brawf digonol.<br>Dylai'r cludydd awyr ddilyn canllawiau perthnasol y Llywodraeth a'r rheoleiddiwr ar asesu a yw'r ci yn Gi Cymorth Cydnabyddedig, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth berthnasol y dylent ofyn i ddefnyddiwr y ci cymorth amdani. |

| Gweithrediad | Disgrifiad o'r broses |
|---|---|
| **Gweithdrefnau Cofnodi** | |
| | At hynny, bydd y cludydd awyr yn ceisio annog teithwyr, drwy neges addas o fewn proses archebu'r wefan a'r ganolfan alwadau, i gysylltu â'r cyflenwr perthnasol, os oes angen, am ddata'r archeb a data atodol, yn ddelfrydol cyn yr amserlenni uchod.<br><br>Bydd y cludydd awyr yn sicrhau ei fod yn fodlon bod y ci yn Gi Cymorth Cydnabyddedig, gan ddefnyddio unrhyw ganllawiau perthnasol gan y Llywodraeth neu'r rheoleiddiwr, gan gynnwys unrhyw asesiad o dystiolaeth a ddarparwyd iddo gan ddefnyddiwr y ci cymorth. Os na fydd y cludydd awyr o'r farn mai Ci Cymorth Cydnabyddedig ydyw, bydd yn gofyn am gymeradwyaeth cludydd gan APHA i gludo'r ci fel anifail anwes.<br><br>Rhaid i bob anifail anwes, gan gynnwys Cŵn Cymorth Cydnabyddedig, gydymffurfio â'r gofynion perthnasol o ran anifeiliaid anwes sy'n teithio sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliad 576/2013 (a rheoliadau cysylltiedig 577/2013 a 2018/772). Mae canllawiau llawn ar gael ar GOV.uk. Dylai'r cludydd awyr ddarparu rhestr wirio er mwyn i'r teithiwr gadarnhau bod ganddo'r gwaith papur gofynnol i gydymffurfio â'r gofynion ar gyfer dod â Chŵn Cymorth Cydnabyddedig i'r DU a rhaid iddo nodi anifeiliaid y mae angen eu harchwilio a gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu cyflwyno wrth gyrraedd. |

| Gweithrediad | Disgrifiad o'r cyfleuster ac ati |
|---|---|
| **Cyfeirio Cŵn Cymorth Cydnabyddedig a ddatganwyd** | |
| 2. Dylai cludwyr awyr cofrestredig sicrhau mai dim ond Cŵn Cymorth Cydnabyddedig sy'n teithio yn y caban a gaiff eu cludo ganddynt i feysydd awyr ym Mhrydain Fawr sydd wedi'u cymeradwyo gan APHA. Pan fydd yn ofynnol i gludydd awyr ddargyfeirio i faes awyr arall am resymau diogelwch neu o dan amgylchiadau eithriadol, dylai'r cludydd awyr ddilyn ei weithdrefn wrth gefn ar gyfer cludo Cŵn Cymorth Cydnabyddedig i feysydd awyr amgen. | Mae gan y cludydd awyr weithdrefn wrth gefn ysgrifenedig ar gyfer cludo Cŵn Cymorth Cydnabyddedig i faes awyr priodol ar gyfer archwiliadau os caiff awyren ei dargyfeirio i faes awyr nas cymeradwywyd mewn argyfwng.<br><br>Os bydd angen i Gi Cymorth Cydnabyddedig gael ei gludo i faes awyr amgen, neu os bydd cynllun wrth gefn i ddargyfeirio awyren i faes awyr arall yn arwain at oedi sylweddol wrth glirio Ci Cymorth Cydnabyddedig, dylid hysbysu'r swyddog ar ddyletswydd yn Guide Dogs neu unrhyw sefydliad cŵn cymorth perthnasol. Dylid rhoi cymorth priodol i ddefnyddiwr y Ci Cymorth Cydnabyddedig. |
| 3. Dylai'r cludydd awyr cofrestredig gyflwyno'r Ci Cymorth Cydnabyddedig i'r personél sy'n gyfrifol am gynnal archwiliadau (y darparwr PRM neu gallai hyn gael ei reoli gan archwilwyr anifeiliaid anwes awdurdodedig mewn rhai meysydd awyr mwy o faint). | Ni fydd criw'r caban yn caniatáu i'r teithiwr na'r Ci Cymorth Cydnabyddedig adael yr awyren heb gael ei gasglu a'i hebrwng gan y darparwr PRM neu'r personél sy'n gyfrifol am yr archwiliadau. Y darparwr PRM neu'r archwilwyr anifeiliaid anwes awdurdodedig fydd yn gyfrifol am gynnal yr archwiliadau perthnasol o ran profion adnabod a dogfennaeth yn y lleoliad y cytunwyd arno ym mhrotocol y maes awyr. |

| Gweithrediad | Disgrifiad o'r cyfleuster ac ati |
|---|---|
| **Cyfeirio teithwyr â Chŵn Cymorth Cydnabyddedig nas datganwyd** | |
| 4. Mae nodi anifeiliaid anwes nas datganwyd sy'n cael eu cludo gan unrhyw deithiwr yn rhan hanfodol o gamau atal smyglo. Er y cydnabyddir y byddai ci cymorth a smyglwyd yn rhywbeth prin iawn, dylai cludwyr awyr ddisgrifio'r cyfarwyddiadau a'r hyfforddiant a roddir i bob aelod o staff a mannau yn ystod y daith lle y gallai Ci Cymorth Cydnabyddedig nas datganwyd gael ei ganfod. | Os caiff Ci Cymorth Cydnabyddedig nas datganwyd ei smyglo i mewn i'r caban a'i ganfod gan staff y caban, dylai capten yr awyren anfon neges drwy'r radio er mwyn hysbysu'r maes awyr a gofyn iddo hysbysu'r Awdurdod Lleol ac APHA.<br><br>Os caiff Ci Cymorth Cydnabyddedig ei smyglo i mewn i Brydain Fawr neu os bydd yn methu'r archwiliadau ar ôl cyrraedd y maes awyr, bydd y perchennog neu'r person y rhoddir hysbysiad cwarantîn iddo, yn gyfrifol am unrhyw gostau a thaliadau yr eir iddynt os caiff y ci ei roi mewn cwarantîn. |
| **Gweithrediad** | **Disgrifiad o'r cyfleuster ac ati** |
| **Lles wrth Gludo** | |
| 5. Rhaid i Gŵn Cymorth Cydnabyddedig gael eu cludo mewn ffordd nad yw'n cael effaith andwyol ar les yr anifail. | Caiff anifeiliaid eu diogelu rhag anaf neu ddioddefaint diangen wrth gael eu cludo gan ddarpariaeth dyletswydd gofal gyffredinol yn Erthygl 4 o Orchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Lloegr) 2006 a deddfwriaeth genedlaethol gyfatebol yng Nghymru a’r Alban. Mae Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Lloegr) 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i anifeiliaid, gan gynnwys cŵn, gael eu cludo mewn cynwysyddion neu ddulliau cludo o |

| Gweithrediad | Disgrifiad o'r cyfleuster ac ati |
|---|---|
| | dan amodau (yn arbennig o ran gofod, awyru, tymheredd a diogelwch) ac â’r cyfryw gyflenwad o hylif ac ocsigen, ag sy’n briodol ar gyfer y rhywogaeth dan sylw.<br><br>. |

## Nodiadau mewn perthynas â chludo Cŵn Cymorth Cydnabyddedig

1. Bydd y cludydd awyr yn annog unigolion sy'n teithio gyda Chŵn Cymorth Cydnabyddedig i hysbysu'r darparwr gwasanaeth PRM yn y maes awyr y mae'n teithio iddo ym Mhrydain Fawr ymlaen llaw, yn ychwanegol at hysbysu'r cludydd awyr.

2. Mae Rheoliad 1107/2006 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau meysydd awyr sicrhau y darperir gwasanaethau trin PRM ar y ddaear.

3. Ni ddylid newid y manylion uchod heb hysbysu APHA drwy'r Tîm Mewnforio yn y Ganolfan Masnach Ryngwladol (CITC). Rhaid cael cytundeb ysgrifenedig gan y Tîm Mewnforio cyn i unrhyw newidiadau gael eu gwneud.

4. Rhaid i'r cytundeb hwn gael ei adolygu a'i ailgyflwyno i APHA bob dwy flynedd o leiaf.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod ar ran y cludydd awyr: | | Dyddiad: | |
| Enw mewn PRIFLYTHRENNAU: | | Statws/Swydd: | |

| | |
|---|---|
| Enw'r cludydd awyr: | |
| Cyfeiriad: | Cod post |

Rhaid i'r ffurflen hon gael ei chyflwyno i CITC yn: Imports@apha.gov.uk

Animal and Plant Health Agency
Centre for International Trade – Carlisle
Import Team
Eden Bridge House
Lowther Street
Carlisle
CA3 8DX
Ffôn: 03000 200 301

© Hawlfraint y Goron 2020

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i https://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/ neu anfonwch neges e-bost i PSI@nationalarchives.gov.uk

Diogelu Data:

I gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn trin data personol ewch i www.gov.uk a chwiliwch am Siarter Gwybodaeth Bersonol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru, Asiantaeth Safonau Bwyd a Safonau Bwyd yr Alban i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.